**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Panel Ymchwilio Craffu - Caffael

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
| --- | --- | --- |
| T M White | L R Jones | B J Rowlands |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
| --- | --- |
| D H Hopkins | Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad |

**Swyddogion**

| | |
| --- | --- |
| Chris Williams | Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol |
| James Beynon | Prif Swyddog Masnachol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: J W Jones

---

6 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Dim

7 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

8 **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2022.

9 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

10 **Adroddiad Effaith/Dilynol - Archwiliad Craffu i Gaffael**

Croesawodd y Panel Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Masnachol i'r cyfarfod. Diweddarwyd y Panel ynghylch cynnydd yr

argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad craffu gwreiddiol a gytunwyd gan y Cabinet ar 20 Hydref 2022.

Clywodd y Panel fod 9 o'r 14 o argymhellion wedi'u cwblhau a chytunwyd y gwnaed cynnydd da â'r 5 argymhelliad sy'n weddill. Roedd y Panel yn falch o lofnodi'r ymchwiliad fel un sydd wedi'i gwblhau.

Roedd y Panel yn falch o glywed oddi wrth Aelod y Cabinet bod yr ymchwiliad wedi bod yn gynhwysol ac yn ddarn o waith buddiol.

Roedd y Panel hefyd yn teimlo'n galonogol o glywed y canlynol am effaith yr ymchwiliad:

- O ganlyniad i'r ymchwiliad, codwyd proffil y materion a nodwyd gan y Panel yn sylweddol ar draws y cyngor llawn - o'r rheini sy'n gweithio ar faterion ynghylch newid yn yr hinsawdd i Archwilio, er enghraifft, yn ogystal ag ar lefel uwch-reolwyr. Mae ffocws a diddordeb y Panel felly wedi amlygu pwysigrwydd y materion a adolygwyd, yn enwedig gallu'r maes gwaith hwn o ysgogi newidiadau pwysig.
- Mae tueddiadau ehangach wedi cael eu hamlygu o ganlyniad i ffocws y Panel ac mae cydweddiad wedi bod rhwng ffocws y Panel ac ymateb y Cabinet, sydd wedi arwain at ymrwymiad cyffredinol i deithio yn yr un cyfeiriad, gan ddangos cydweddiad strategol y gwaith a'i bwysigrwydd i ddyfodol gweithrediad y cyngor a'i effaith ar yr amgylchedd ehangach.

Ysgrifennir llythyr at Aelod y Cabinet sy'n nodi meddyliau'r Panel yn dilyn y drafodaeth heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am

**Cadeirydd**